

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Y Cyd-destun Polisi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gymraeg 2050, y strategaeth genedlaethol i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhaid i holl bolisiâu Llywodraeth Cymru ystyried eu heffaith ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith.

## Dolen i Gymraeg 2050

Er nad yw'r Rheoliadau Apelau yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddau brif darged Cymraeg 2050, maent yn cyd-fynd yn gryf â'i themâu strategol.

Yn benodol, maent yn cefnogi:

- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ymgorffori prosesau dwyieithog yn y system apelau, gan sicrhau y gellir defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn trafodion ffurfiol.
- Thema 3: Creu amodau ffafriol drwy sicrhau hygyrchedd digidol a chynnal cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg, a thrwy hynny feithrin amgylchedd lle y gall y Gymraeg ffynnu ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus.

## Effaith y Rheoliadau

Agwedd	Disgrifiad
Gwasanaethau Dwyieithog	Bydd pob gwasanaeth sy'n delio â'r cyhoedd, gan gynnwys ffurflenni apelio, hysbysiadau a phenderfyniadau, ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y gofrestr electronig o domenni nas defnyddir yn ddwyieithog, gan gefnogi arloesedd digidol a hygyrchedd i siaradwyr Cymraeg.
Cydymffurfedd	Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau gweithredu cynnar.

# Effeithiau ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith

Disgwylir i'r Rheoliadau Apelau gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r fframwaith yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal drwy gydol y broses apelio, gan gefnogi egwyddor darparu gwasanaethau dwyieithog. Drwy ddiogelu seilwaith a darparu gwybodaeth hygyrch yn y ddwy iaith, mae'r rheoliadau'n cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol wedi cael eu nodi, gan nad yw'r rheoliadau'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

## Gwasanaethau a Hygyrchedd

Bydd yr holl gyfathrebiadau, canllawiau a dogfennau apelio sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Apelau yn cael eu darparu yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, gan sicrhau hygyrchedd llawn i siaradwyr Cymraeg. Bydd cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg yn cael ei fonitro gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn cynnal safonau uchel o ran darparu gwasanaethau. Bydd ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses apelio'n cael ei hyrwyddo drwy gyhoeddiadau dwyieithog a phlatfformau digidol, gan atgyfnerthu'r ymrwymiad i gydraddoldeb a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn trafodion swyddogol.

## Y Dystiolaeth

Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Diogelwch Domenni Glo gefnogaeth gref ar gyfer darpariaeth ddwyieithog a chydymffurfedd llawn â Safonau'r Gymraeg. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cadw cofrestrau dwyieithog a sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cadw mewn dogfennau swyddogol. Mae'r adborth hwn wedi llywio datblygu'r Rheoliadau Apelau, gan atgyfnerthu'r ymrwymiad i gydraddoldeb a chadwraeth ddiwylliannol wrth weithredu'r broses apelio.

# Monitro a Llwyddiant

Bydd llwyddiant y Rheoliadau Apelau o ran cefnogi'r Gymraeg yn cael ei fesur drwy ddangosyddion clir. Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfio parhaus â Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau bod yr holl wasanaethau a dogfennau'n parhau i fod yn gwbl ddwyieithog ac yn hygyrch. Yn ogystal, gellid casglu adborth gan gymunedau Cymraeg eu hiaith yn ystod yr adolygiad ôl-weithredu i asesu boddhad a nodi meysydd i'w gwella. Bydd y dull monitro hwn yn helpu i gynnal safonau uchel ac atgyfnerthu ymrwymiad i gydraddoldeb a chynaliadwyedd diwylliannol.

## Crynodeb

Disgwylir i'r Rheoliadau Apelau gael effaith gadarnhaol neu niwtral ar y Gymraeg. Maent yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dwyieithrwydd drwy ymgorffori defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gydol prosesau rheoleiddio a gwasanaethau digidol cysylltiedig. Mae'r dull hwn yn sicrhau mynediad cyfartal, yn cefnogi cynaliadwyedd diwylliannol ac yn cryfhau gweledd y Gymraeg ym maes gweinyddu cyhoeddus.